**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**
**9 Mawrth 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn rhithiol ddydd Mawrth, 9 Mawrth 2021.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Rosetta Dolphin (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Dolphin, David Evans, George Hardcastle, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor) a Dave Hughes (Aelod Cabinet Tai)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet
Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad; y Cynghorydd Chris Bithell,
Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; y Cynghorydd Derek Butler,
Aelod Cabinet Datblygu Economaidd, Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Alexander Fortune, Noddwr Prosiect o Drafnidiaeth Cymru (ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen)
Niall Waller (Rheolwr Menter ac Adfywio) (ar gyfer eitem 7 ar y rhaglen)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi
a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

44 **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

45. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2021.

Cyfeiriodd y Cynghorydd George Hardcastle at y paragraff olaf ar dudalen 6 a dywedodd fod ei gwestiwn mewn perthynas â darpariaeth untro o dywod a bagiau tywod i'w defnyddio gan y tîm ymateb yng Nghyngor Cymuned Penarlâg. Mewn ymateb, rhoddodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) esboniad pam y daeth y polisi bagiau tywod i rym, y costau dan sylw a hefyd amlinellu'r problemau storio posibl y gallai cymunedau eu hwynebu drwy storio'r bagiau a llawer iawn o dywod. Rhoddodd sicrwydd i'r Cynghorwyr y byddai cymorth yn cael ei ddarparu pe bai llifogydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton at dudalen 8 o'r cofnodion a gofynnodd am gywiriad i'r cynigydd – cafodd ei gynnig gan y Cynghorydd Chris Dolphin nid y Cynghorydd Chris Bithell.

Cafodd y cofnodion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Sean Bibby a Paul Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ychwanegu'r ddau gywiriad, y dylid cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 46. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd yr adroddiad a chyfeiriodd aelodau at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar dudalen 17. Rhoddodd ddiweddariad o'r eitemau a ddygwyd i gyfarfod 12 Mai ac esboniodd y byddai'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn cynnwys gwybodaeth am ganlyniad yr Arbrawf Agregau a Thyllau yn y ffordd. Yna cyfeiriodd yr Hwylusydd at y cyfarfod ar 8 Mehefin gan gadarnhau yn ychwanegol at adroddiad Cynllun Diwedd y Flwyddyn, Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon, y byddai diweddariad ar Lifogydd a Cefnogaeth â Chymorth hefyd yn cael ei drafod yn y cyfarfod hwnnw. O ran cyfarfod 6 Gorffennaf, cadarnhaodd yr Hwylusydd y byddai'r adroddiad Hawliau Tramwy Cyhoeddus, fel y'i cyflwynwyd gan y Cynghorydd Chris Dolphin, a Dyheadau Tanwydd Hydrogen yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod hwn.

Yna cyfeiriodd yr Hwylusydd at y tabl olrhain Camau Gweithredu a chadarnhaodd fod y mwyafrif bellach wedi'u cwblhau. Ar ôl cyfarfod mis Mai, yr adborth i'r pwyllgor ar yr Arbrawf Tyllau yn y ffordd a'r Clefyd Coed Ynn, gellid wedyn cau yr eitemau.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad i'r Cynghorydd Hardcastle a oedd yn hapus gyda'r ymateb a ddarparwyd gan y Prif Swyddog ar y Polisi Bagiau Tywod. Cadarnhaodd y Cynghorydd Hardcastle ei fod yn hapus gyda'r ymateb gan y Prif Swyddog.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Chris Dolphin a'r Cynghorydd Joe Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.
(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.
(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 47. GWASANAETHAU TRÊN LEIN Y GORORAU – GWASANAETHAU YCHWANEGOL AC EFFAITH BOSIB AR AROSFANNAU (CYFLWYNIAD)

Eglurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) fod y cyflwyniad hwn wedi'i gynhyrchu yn dilyn cais gan y pwyllgor hwn a'i fod yn darparu gwybodaeth am ddatblygiad a dyheadau'r llinell yn dilyn gweithredu'r fasnachfraint newydd yn 2018. Cadarnhaodd nad oedd y Cyngor yn gyfrifol am y llinell ond wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos, a'r gweithredwr Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu'r llinell. Gyda dyheadau a rennir, byddai'r gwaith yn cysylltu â chynlluniau Metro'r Cyngor. Cadarnhaodd mai Network Rail oedd yn berchen ar y trac a'r signalau, a'r fasnachfraint yn cael ei rheoli gan Drafnidiaeth Cymru, a oedd yn cynnal astudiaeth bwrdd gwaith o'r llinell i sefydlu pa gyfyngiadau a allai rwystro nodau a dyheadau'r llinell.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Alex Fortune, Noddwr Prosiect y Rheilffordd yng Nghymru dros Drafnidiaeth Cymru a weithiodd yn agos gyda Network Rail a chydweithwyr i helpu i gyflawni'r cynlluniau hyn. Dechreuodd Mr Fortune y cyflwyniad manwl i'r pwyllgor a oedd yn cynnwys sleidiau ar y canlynol: -

- Metro Gogledd Cymru -
    - Trawsnewid gwasanaethau bws a thrên
    - Ei gwneud yn haws a chynt i deithio rhwng Arfordir Gogledd Cymru, Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a Glannau Mersi yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.
    - Gwell cyfnewidfa yn Shotton ar gyfer Llinell Arfordir Gogledd Cymru.
    - Gorsaf newydd ym Mharcffordd Glannau Dyfrdwy
- Isadeiledd
- Gorsafoedd a'r Defnydd
- Trenau Newydd

Gwnaeth y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) sylwadau ar faterion lleol streiciau pontydd ac ar y cynigion a osodwyd y llynedd i gynorthwyo i ddelio â'r rhain. Roedden nhw'n digwydd yn rheolaidd ar y llwybr ac roedd yn rhaid delio â'r goblygiadau a achosodd hyn i gymudwyr pan fyddai'n digwydd. Cadarnhaodd mai dyhead y Cyngor oedd bod y llinell hon yn dod yn llinell o bwys i gymudwyr, ac roedd angen iddi fod yn ddibynadwy. Cyfeiriodd at y cais llwyddiannus i roi arwyddion rhyngweithiol ar hyd pob un o'r pontydd isel ar hyd y llwybr a oedd yn cynnwys Cefn-y-Bedd, Shotton a Padeswood ac eglurodd sut y byddai hyn yn gweithio i rybuddio gyrwyr cerbydau uchel. Yna rhoddodd wybodaeth am y cais a wnaed i godi'r bont neu ostwng y ffordd ac i'r astudiaeth a gynhaliwyd ar y tri safle i ostwng y ffordd. Nid oedd yn bosibl gostwng y ffordd yn Shotton a Cefn-y-Bedd ac oherwydd materion lleol roedd hyn yn bosibl yn Padeswood.

Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog at y ddau welliant i'r orsaf a dywedodd nad oedd Shotton mor ddatblygedig â gorsaf Parkway, a oedd yn rhan o'r Strategaeth Drafnidiaeth Metro. Dywedodd ei bod yn allweddol i ddatblygiad strategaethau integredig i ddatblygu llinell gymudwyr wedi'i chysylltu â Penyffordd gyda gwasanaeth parcio a theithio i annog cymudwyr i beidio â defnyddio eu ceir.

Diolchodd y Cynghorydd Sean Bibby i Mr Fortune a'r Prif Swyddog am y cyflwyniad a oedd yn gadarnhaol iawn. Cododd y cwestiynau canlynol:-

- Y diweddaraf ar ailddatblygu Gorsaf Shotton.
- Gan gyfeirio at Barcffordd Glannau Dyfrdwy, gofynnodd beth fyddai dyfodol Pont Penarlâg.
- O ran Mynediad i'r Anabl, adroddodd ar nifer o faterion a godwyd gan drigolion ynghylch Gorsaf Shotton. Gofynnodd pa fesurau oedd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y gorsafoedd hyn yn hygyrch i'r anabl, yn enwedig gan fod y mannau croesi wedi'u blocio.

Ymatebodd Mr Fortune i'r pwynt cyntaf i ddweud y byddai Gorsaf Shotton yn symud ymlaen i Radd 4 o'r mis nesaf ymlaen gan fod cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru (LlC) i gefnogi hyn. O ran y pwynt ar fynediad i'r anabl, cytunodd fod hwn yn fater yr oedd angen mynd i'r afael ag o. Dywedodd nad oedd yn ymwybodol bod unrhyw groesfannau yn cael eu blocio yn y gorsafoedd ond dywedodd fod Network Rail yn ystyried croesfannau traed fel risg a'u bod yn edrych ar liniaru i ddatrys y broblem hon. Byddai hynny'n golygu defnyddio pont a lifftiau.

Yna cyfeiriodd Mr Fortune at orsaf Pont Penarlâg, nad oedd yn cael ei defnyddio’n aml iawn. Nid oedd yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i gau'r orsaf honno. Dywedodd y gallai'r datblygiadau yn Airfields a'r parc diwydiannol gynyddu nifer y teithwyr ar gyfer yr orsaf hon o bosibl.

Adroddodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chludiant ar y cais am Ariannu Gwydnwch i ostwng y ffordd yn Padeswood a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn fuan yn Cefn y Bedd a oedd yn cynnwys goleuadau traffig ac arwyddion rhybuddio. Dywedodd fod y llinell hon hefyd yn cael ei defnyddio gan drenau nwyddau yn Padeswood ac y byddai hyn yn effeithio ar amserlennu. Roedd hi'n falch bod Shotton a Parkway yn symud ymlaen a gyda Penyffordd fel gorsaf hwb o ran parcio, byddai'n ei gwneud hi'n haws i gymudwyr ddefnyddio'r trên a'r bysiau yn hytrach na gyrru. Teimlai mai’r uchelgais fyddai pedwar trên yr awr, ond byddai'n falch iawn gyda dau drên yr awr.

Gofynnodd y Cynghorydd Joe Johnson a fyddai'r orsaf ym Maes-glas yn cael ei hystyried yn yr adroddiad hwn. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog fod yr orsaf hon ar reilffordd yr arfordir felly nid oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, cadarnhaodd fod astudiaeth debyg wedi'i chynnal ar y llinell honno yr oedd yn gobeithio ei chael erbyn diwedd y mis.

Diolchodd y Cynghorydd Hardcastle i Mr Fortune am y cyflwyniad a gofynnodd a oedd unrhyw gynigion ar gyfer gorsaf Penarlâg ac a oedd hi'n bosibl cynnwys cyfleusterau toiled yn yr orsaf hon yn ogystal â Shotton.

Mewn ymateb, cydnabu Mr Fortune fod diffyg cyfleusterau toiled yn broblem. Cadarnhaodd fod cynlluniau ar gyfer gosod cyfleuster toiled newid lleoedd yn Shotton ond dywedodd ei fod yn anodd iawn gan fod rhai gorsafoedd yn rhai heb staff a bod risg o fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd LlC eisiau cynyddu nifer y cyfleusterau mewn gorsafoedd ac roedd y rhain yn rhan o'n huchelgeisiau i’w cynnwys mewn gorsafoedd lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl. Yna gofynnodd y Cynghorydd Hardcastle a oedd hi'n bosibl i Benarlâg ddod yn orsaf â staff, a hefyd a allai gael gwybodaeth am y cynlluniau ar gyfer gwella gorsaf Penarlâg. Mewn ymateb, cadarnhaodd Mr Fortune y byddai'n rhaid iddo ddod yn ôl at y Cynghorydd Hardcastle gan nad oedd ganddo'r wybodaeth am Benarlâg wrth law.

Gofynnodd y Cynghorydd Owen Thomas y cwestiynau canlynol.

- A oedd unrhyw gynigion i drydaneiddio'r llinell o ystyried y cynlluniau i gael gwared â diesel yn raddol?
- A fyddai digon o le parcio yn y gorsafoedd hyn?
- O ran Gorsaf Padeswood, roedd gan y Cynghorydd Thomas bryderon ynghylch gostwng y ffordd gan fod yr ardal hon yn destun llifogydd ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn, gyda dim ond cerbydau uchel yn gallu pasio trwyddi.

Mewn ymateb i'r trydydd pwynt, cadarnhaodd y Prif Swyddog eu bod yn ymwybodol o'r problemau llifogydd a bod hwn yn gyfle i fynd i'r afael â nhw. Cadarnhaodd mai’r camau cynnar oedd hyn o hyd ac y byddai angen cyllid i ddatblygu'r prosiect a mynd i'r afael â'r materion llifogydd ar yr un pryd. Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog at yr ail bwynt gan ddweud bod parcio yn allweddol i lwyddiant y prosiectau ynghyd â sicrhau bod pob safle wedi'i gysylltu â'r

Rhwydwaith Teithio Llesol.  Byddai hyrwyddo Penyffordd fel safle parcio a theithio yn galluogi pobl nad ydyn nhw'n gallu cerdded, beicio na defnyddio'r bws i gael mynediad i'r orsaf i barcio eu ceir a defnyddio'r trên i gymudo i'r gwaith. Byddai'r safleoedd sy'n darparu lle parcio ceir yn cael eu hyrwyddo.

Mewn ymateb i'r pwynt cyntaf, cytunodd Mr Fortune mai trydaneiddio oedd y ffordd ymlaen o ran datgarboneiddio a chludiant mwy gwyrdd.  Dywedodd fod y trenau ar hyn o bryd yn cael eu pweru gan ddiesel, a'r trenau 230s newydd yn cael eu pweru gan ddiesel a batri dau-fodd.  Roedd trenau wedi'u pweru gan hydrogen yn cael eu hystyried yn y DU gan fod y rhain eisoes yn weithredol yn yr Almaen ac Awstria. Byddai'r rhain yn cysylltu â chynlluniau hwb hydrogen Glannau Mersi.  Yna cyfeiriodd Mr Fortune at drenau Rheilffordd Mersi 777 a bwerwyd gan fatri, a oedd yn cael eu defnyddio ar ôl y Pasg. Fodd bynnag, teimlai bod angen trenau trydan i alluogi mynediad i ganol Lerpwl.  Cadarnhaodd fod gan LIC a Thrafnidiaeth Cymru gynlluniau ar waith i ddatgarboneiddio'r fflyd. Ar hyn o bryd dim ond dau fath o drenau sydd, diesel a thrydan, ond roedd yr amrywiadau eraill yn gwella a byddai dewisiadau amgen yn y dyfodol.

Diolchodd y Cynghorydd Paul Shotton i Mr Fortune am y cyflwyniad ac roedd yn edrych ymlaen at weld Gorsaf newydd Parcffordd Glannau Dyfrdwy. Yn ei farn o, byddai'n arwain at fwy o fuddsoddiad ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.  Gofynnodd a gynhaliwyd trafodaethau gyda Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy a Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, ac a oedd wedi cwblhau ei broses recriwtio gyrwyr a gweithwyr ategol wrth symud ymlaen.     Mewn ymateb, cadarnhaodd Mr Fortune fod digon o yrwyr dan hyfforddiant i ddiwallu'r anghenion ar gyfer y cynnydd mewn gwasanaethau eleni ac ar gyfer 2022. Cadarnhaodd ei fod wedi cwrdd â Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy a Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy a sefydliadau trawsffiniol eraill gan fod y rhanbarth cyfan yn ganolfan economaidd bwysig.

Gofynnodd y Cynghorydd David Evans y cwestiynau canlynol:-

- A fyddai'r trenau'n dal i newid yn Bidston yn hytrach na mynd yn uniongyrchol o Wrecsam i Lerpwl?
- Dywedodd nad oedd yr amserlenni ar hyn o bryd yn galluogi pobl o Shotton sy'n gweithio er enghraifft yn Ysbyty Wrecsam Maelor, i deithio i'r orsaf ac yna cyrraedd y gwaith am 8.00am.
- Roedd y trên olaf yn ôl o Lerpwl i Wrecsam am 10.15m ond os oeddech chi'n mynd i Gaer y trên olaf oedd 11.45pm.  Roedd gan Gaer wasanaeth gwell o gymharu â lein y gororau.   A ellid gwneud rhywbeth o ran hyn?

Ymatebodd Mr Fortune i'r pwynt cyntaf gan ddweud bod hwn yn uchelgais hirdymor i fynd i mewn i Lerpwl, a dywedodd mai rhan o'r astudiaeth oedd ymestyn y gwasanaethau ar gyfer Gogledd Penbedw, a fyddai'n darparu 8 trên yr awr i'r ganolfan yn hytrach na 4 yn Bidston.  Roedd yr astudiaeth yn edrych ar sut y gellid cyflawni hyn i gyd-fynd ag amserlen Rheilffordd Mersi.    Mewn ymateb i'r problemau amserlennu, cadarnhaodd yr ymgynghorwyd â chyflogwyr a busnesau mawr ac y byddai'n rhoi adborth i sylwadau'r Cynghorydd Evans i'r Tîm Amserlenni a Budd-ddeiliaid i weld a ellid gwella hyn ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson at y cyflwyniad a gofyn y cwestiynau canlynol:-

- O ran llinell uchaf ac isaf Shotton, sut fyddai'r rhain yn uno, ac a fyddai'r cynigion hyn yn symud yr orsaf ymhellach i'r gogledd. Dywedodd ei fod wedi defnyddio'r orsaf hon a bod y daith gerdded i fynd ar y llinell uchel a cherdded i ganol y dref yn wael ac yn beryglus iawn.
- O ran yr amserlenni ar gyfer Bidston a Wrecsam a Chaer ac arfordir Gogledd Cymru, roedd bylchau lle byddai teithwyr yn aros am amser hir i ddal trên i arfordir Gogledd Cymru. Dywedodd nad oedd yr orsaf y lle gorau i aros am amser hir am drên.

Mewn ymateb, cytunodd Mr Fortune â'r sylwadau a wnaed ynghylch Shotton a rhoddodd amlinelliad ar sut y byddai'r platfform estynedig yn edrych, ynghyd â'r bont droed a'r cyfleusterau lifft o un platfform i'r llall, a fyddai'n gwella'r amgylchedd cyfan. Cadarnhaodd mai nod y prosiect metro oedd edrych ar integreiddio'r amserlenni mewn lleoliadau hwb i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn a gwneud pethau'n haws ac yn fwy hygyrch.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Cindy Hinds at y sylwadau a wnaed ar y cynigion i gael gwared ar y croesfannau gwastad. Gofynnodd beth fyddai'n cael ei roi ar waith i alluogi pobl i gyrraedd yr ochr arall, yn enwedig yr anabl, rhieni â choets a ffermwyr a oedd yn gorfod defnyddio'r groesfan reilffordd i fynd i mewn i'w caeau. Mewn ymateb dywedodd Mr Fortune fod hygyrchedd yn ystyriaeth bwysig ac na fyddai croesfannau ar gau nes bod dewis arall addas ar waith, sef lifft a phont droed yn y mwyafrif o achosion, gan mai dyma'r opsiwn fwyaf diogel. O ran ffermwyr a gweithwyr eraill, byddai hyn eto yn cael ei ystyried yn ofalus ac ni fyddai croesfannau'n cau nes bod opsiwn arall ar waith.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor wrth y pwyllgor ei fod yn cynrychioli'r Cyngor ar Growth Track 360 a Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, a'i fod yn llefarydd Trafnidiaeth ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gwnaeth sylwadau ar yr angen i gyflawni cyn gynted â phosibl ar Orsafoedd Parcffordd Glannau Dyfrdwy a Shotton. Os oedd hon am ddod yn llinell i gymudwyr roedd yn rhaid iddi fod yn wydn. Cyfeiriodd at Orsaf Gogledd Penbedw gan ddweud y byddai adfer y platfform ychwanegol yn opsiwn gwell na Bidston. Gofynnodd yr Arweinydd a fyddai'r gwasanaeth ychwanegol yn wasanaeth pob gorsaf neu a fyddai'n colli rhai gorsafoedd ar hyd y llinell. Croesawodd fwy o drafodaeth ar drafnidiaeth reilffordd yn y dyfodol.

Adroddodd Aelod y Cabinet ar yr arian ychwanegol a ddarperir gan LIC ar gyfer teithio llesol, beicio a bysiau trydan ond nododd fod arwyddion da, yn enwedig argraffiadau artistiaid yng Ngorsaf Parcffordd, yn darparu gwybodaeth am yr hyn oedd yn digwydd. Dyma oedd yn allweddol i lwyddiant prosiect Metro Gogledd-ddwyrain Cymru. Cyfeiriodd at drafodaethau gyda Thrafnidiaeth Cymru ynghylch byrddau gwybodaeth sy'n gwerthu'r weledigaeth, ynghyd â darparu gwybodaeth ar amserlennu, gwasanaethau bysiau a gwasanaethau eraill gyda logo adnabod unigryw. Cyfeiriodd wedyn at y canlyniadau ar yr ymgynghoriad yng Ngorsaf Maes Glas, yr oedd hi'n gobeithio y gellid ei drafod yn y pwyllgor cyn gynted ag y byddai'n barod.

Dywedodd Mr Fortune fod cyfathrebu a chael y wybodaeth allan i'r parth cyhoeddus yn allweddol ac, yn anffodus, roedd hyn yn rhywbeth na chafodd ddigon o gyhoeddusrwydd. Roedd gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir a sut i'w defnyddio yn hanfodol i lwyddiant y prosiect ac roedd argraffiadau artist

yn ffordd dda o werthu'r weledigaeth. Roedd yn gobeithio na fyddai'n rhy hir cyn y byddai'r rhain yn barod. Yna cyfeiriodd at Orsaf Maes-glas a chadarnhaodd ei fod yn ymwybodol bod y cynllun hwn wedi'i ariannu ar gyfer y cam nesaf i'w ystyried. Mae hefyd ar eu Rhaglen Waith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i edrych ar ddichonoldeb, gan adeiladu ar yr hyn a wnaed hyd yn hyn a mynd ag o drwy weithdrefnau'r rhaglen fuddsoddi. Roedd yn gobeithio y byddai hyn yn symud pethau'n eu blaen.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y pwyllgor yn diolch i'r cynrychiolwyr o Drafnidiaeth Cymru am eu cyflwyniad ac yn nodi'r cynnwys.

48. **DEUNYDDIAU Y GELLIR EU HAILGYLCHU AC EFFAITH Y PANDEMIG AR Y NIFEROEDD A GWERTHOEDD AILWERTHU.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) a esboniodd y gofynnwyd am y wybodaeth hon gan y Pwyllgor i ddeall yr effaith helaeth yr oedd y pandemig wedi'i hachosi ar faint o ddeunyddiau a gasglwyd a'r gwerthoedd a gafwyd am y deunydd. Yna darparodd y Prif Swyddog wybodaeth fanwl am yr effaith gadarnhaol ar ailgylchu, a oedd wedi cynyddu 25%, a chasgliadau gwastraff bwyd a oedd wedi cynyddu o 10%. Yr effaith negyddol oedd bod gwastraff gweddilliol wedi cynyddu 7%, ac oherwydd bod safleoedd HRC wedi cau a chasgliadau gwastraff gardd wedi'u hatal dros dro, cafwyd effaith ar berfformiad ailgylchu cyffredinol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog y byddai'r perfformiad ailgylchu yn debygol o aros yr un fath ar oddeutu 66% a rhoddodd wybodaeth am darged LIC o 70% ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Cadarnhaodd y byddai hyn yn cael ei ddwyn yn ôl i'r pwyllgor ym mis Mehefin gyda'r Ymgyrch newydd, sef "Targed 70" i annog mwy o ailgylchu. Cyfeiriodd hefyd at yr ymgyrch deledu a chyfryngau newydd gan LIC o'r enw "Mighty Recycler" a fyddai'n cychwyn mewn cwpl o wythnosau i ymgysylltu â'r cyhoedd. Yna rhoddodd wybodaeth am yr effaith ariannol ar brisiau plastigau a'r pwysau sy'n deillio o hynny ar y gwasanaeth. Roedd LIC wedi bod yn gefnogol iawn gyda Sir y Fflint yn un o'r cynghorau cyntaf yng Nghymru i gyflwyno cais am y gronfa caledi oherwydd cyfanswm y tunellau ychwanegol a cholled incwm, yn ogystal â gorwariant y gwasanaeth wedi gostwng dros y blynyddoedd oherwydd cefnogaeth LIC.

Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog at 1.08 yn yr adroddiad i roi sicrwydd i'r Aelodau o ran pryderon gyda Brexit a mynediad i farchnadoedd Ewropeaidd ar gyfer cynhyrchion ailgylchu. Cadarnhaodd fod mynediad ar gael o hyd ond, ar hyn o bryd, roedd ein holl ddeunyddiau ailgylchu yn cael eu dosbarthu i fasnachwyr yn y DU gyda chyrchfannau terfynol yn cael eu monitro a'u hadrodd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hardcastle at gyfarfod Cyngor Cymunedol Penarlâg y noson flaenorol lle trafodwyd y materion parcio yn Yowley Road a Crossways yn Ewlo. Roedd Wagenni yn ei chael hi'n anodd llywio drwy'r ceir ac yn arwain at fethu casgliadau. Gofynnodd pa weithdrefnau oedd ar waith yn y sefyllfa hon i gasglu'r deunydd ailgylchu.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog fod hwn yn broblem gyffredin ym mhob ward gyda mwy o geir wedi'u parcio gan fod pobl yn gweithio gartref, a bod hyn yn dod yn fater mawr i'r gwasanaeth. Roedd yn rhaid casglu’r deunydd ailgylchu ac nid bai’r preswylwyr oedd eu bod yn gweithio gartref. Adroddwyd am lythyrau a gafodd eu postio i annog preswylwyr i symud eu ceir ar ddiwrnodau casglu. Roedd cerbydau llai yn cael eu defnyddio ond roedd cost i hyn ac roedd yn fwy cost effeithiol casglu gyda'n cerbydau mwy. Cytunodd i roi adborth yn ôl i'r tîm ac anfon e-bost at y cynghorydd yng Nghyngor Cymunedol Penarlâg.

Gwnaeth yr Aelod Cabinet sylwadau ar y ffigurau ailgylchu gan ddweud bod swm yr ailgylchu a gasglwyd o aelwydydd wedi cynyddu 26%, gwastraff bwyd 10% a gwastraff gweddilliol 7%, a bod y gwaith a wnaed gan y gweithlu i reoli hyn yn anghredadwy. Roedd y swm a gasglwyd yn cael ei fonitro yn ôl pwysau yn hytrach na chyfaint wrth gyfrifo'r ffigurau. Golygai hyn ei fod yn cael ei negyddu gan y gwastraff gweddilliol, er bod ailgylchu wedi cynyddu. Roedd angen hyrwyddo ac annog mwy o drigolion i ailgylchu, yn enwedig i ddefnyddio’r gwasanaeth ailgylchu gwastraff bwyd, gan ei fod yn mynd i safle yn Rhuallt i’w droi yn drydan. Cododd bryderon am y swm o dipio anghyfreithlon a’r sbwriel, ond roedd mor falch o’r grwpiau casglu sbwriel cymunedol a gamodd i'r adwy i ddelio â'r broblem hon. Yna adroddodd yr Aelod Cabinet ar y cyllid ar gyfer y caffi atgyweirio ym Mwcle ac y dylem fod yn hyrwyddo pobl i ailddefnyddio ac atgyweirio yn hytrach na chael gwared wrth symud ymlaen. Yna cyfeiriodd at ysgubo ceunentydd a ffosydd gyda'r gwastraff yn gorfod cael ei lanhau. Roedd hyn yn ddrud ac roedd yn rhaid ei anfon at gwmni ym Manceinion. Codwyd hyn ledled Gogledd Cymru er mwyn edrych ar gyfleuster lleol i lanhau'r gwastraff hwn. Ychwanegodd y Prif Swyddog fod cael gwared â rhigol ac ysgubo gwastraff yn un o feysydd gwariant uchaf y gwasanaeth oherwydd, er nad oedd y deunydd yn cael ei ystyried yn wastraff peryglus, roedd cost ei waredu yn sylweddol uwch na deunydd gwastraff arferol.

Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog at gwestiwn yn y sgwrs ynghylch casgliadau dydd Sadwrn a deallodd fod rhifau cyswllt yn cael eu darparu ond y byddent yn dod yn ôl i'r pwyllgor o ran hyn. Roedd hefyd wedi adrodd y byddai'r holl Gydlynwyr yn e-bostio'r aelodau yn eu rhanbarth ar brynhawn dydd Gwener gyda'u hargaeledd ar gyfer yr wythnos ganlynol ac yn amlinellu'r weithdrefn iddynt ei dilyn pe na baent ar gael.

Gofynnodd y Cynghorydd Chris Bithell am eglurhad ar y cynnydd yn y ffigurau gwastraff gweddilliol, gan ofyn a oedd yn wastraff ailgylchadwy neu’n HRC. Gofynnodd hefyd a gosbwyd y Cyngor gyda ffioedd ychwanegol ym Mharc Adfer a gan LIC am y cynnydd hwn. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog fod hwn yn swm ychwanegol o wastraff gweddilliol a oedd, o ran pwysau, wedi cynyddu 7% ac nad oedd yn cynnwys deunyddiau ailgylchadwy. Cyfeiriodd at Barc Adfer a chadarnhaodd fod isafswm ffi glwyd sefydlog wedi'i gwarantu. Mae unrhyw gyfanswm y tunellau dros y swm hwn yn cynhyrchu cyfradd is i'r awdurdod, felly ni cheir unrhyw effaith net wrth ddefnyddio Parc Adfer i waredu gwastraff.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton at grŵp sbwriel a oedd wedi cychwyn yng Nghei Connah ac a oedd wedi cynyddu’n gyflym i 400 aelod a aeth allan mewn grwpiau bach i gasglu sbwriel yn rheolaidd. Gofynnodd a oedd codwyr sbwriel y Cyngor yn gwbl weithredol bellach. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog fod nifer fach yn gwarchod eu hunain, ond roedd y mwyafrif yn dal i weithio drwy gydol y pandemig. Roedd yn llwyr werthfawrogi ac

yn cefnogi'r grwpiau cymunedol casglu sbwriel a roddodd gefnogaeth ychwanegol wrth ddelio â'r cynnydd yn y sbwriel. Roedd cais wedi'i roi i LlC am offer, bagiau ac ati ar gyfer y grwpiau hyn a darparwyd gwasanaeth casglu gwastraff i godi'r bagiau sbwriel. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod cymaint o grwpiau casglu sbwriel wedi gofyn iddi am offer, a chadarnhaodd fod rhai cyflenwadau ar gael fel bagiau plastig lliw i nodi'r sbwriel a gasglwyd, a gasglwyd yn ei dro gan y Cyngor o ardaloedd dynodedig. Gofynnwyd i'r grwpiau hefyd wahanu'r eitemau a gasglwyd rhwng deunyddiau gwastraff a deunyddiau ailgylchadwy os yn bosibl.

Dywedodd y Cynghorydd Chris Dolphin fod y gwrychoedd yn llawn sbwriel mewn ardaloedd gwledig. Dyma oedd yr achos erioed, ond oherwydd bod pobl yn cerdded mwy rŵan, cafodd hyn ei amlygu. Yna cyfeiriodd at y gwahanol gerbydau casglu gan ganmol y goruchwyliwr yng ngorllewin Sir y Fflint a oedd bob amser yn ateb y ffôn. Dywedodd fod rhai pobl ragorol yn y tîm hwn a oedd bob amser yn gorfod delio â chwynion, yn enwedig pan oedd y tywydd yn wyntog.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at sylw'r Prif Swyddog ynghylch yr e-bost a anfonwyd gan y cydgysylltwyr ar ddydd Gwener a dywedodd y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd cynnwys gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw yn yr e-bost.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Owen Thomas at yr A541 o'r Wyddgrug i Nannerch. Nododd fod y ffordd hon yn gwbl warthus gyda sbwriel a briodolwyd i'r allfeydd bwyd cyflym yn yr Wyddgrug. Mae'r sbwriel yn lleihau wrth i chi deithio ymhellach ar hyd y ffordd. Roedd yn rhaid gwneud rhywbeth am y gwastraff bwyd cyflym. Mewn ymateb, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at Ymgynghoriad presennol â LlC ar daflu sbwriel a thipio anghyfreithlon. Mae'n dod i ben ym mis Ebrill ac awgrymwyd bod y Cynghorydd Thomas yn ychwanegu ei bryderon fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw. Trafodwyd y cynllun yng Nghaint lle defnyddiwyd teledu cylch cyfyng ar gerbydau i ddarganfod pwy oedd yn gyfrifol am y sbwriel, ac yna gosod dirwyon ar y perchnogion hefyd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y penderfyniad gan y Cynghorydd Chris Dolphin a Sean Bibby

**PENDERFYNWYD:**

Bod y pwyllgor yn nodi'r anwadalrwydd cyfredol sy'n ymwneud â lefelau casglu gwastraff a deunydd ailgylchu a gwerthoedd ad-dalu ar gyfer y deunydd ailgylchu a gesglir yn y Sir.

49. **ADFERIAD ECONOMAIDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) a'r Rheolwr Menter ac Adfywio. Cadarnhaodd y Prif Swyddog fod hyn yn rhan o gyfres o bapurau a ddaeth i'r pwyllgor ynghylch Adferiad Economaidd a bod yr adroddiad hwn yn amlinellu'r cynigion ar lefel ranbarthol ac o fewn Cynllun y Cyngor.

Cadarnhaodd y Rheolwr Menter ac Adfywio fod yr adroddiad yn egluro lle'r oedd y Cyngor ar hyn o bryd o ran yr economi yn Sir y Fflint, wedi tynnu sylw at

risgiau posibl, y strwythurau llywodraethu sydd ar waith a'r rhaglen waith gyfredol i ymateb i'r risgiau hynny.  Darparodd wybodaeth ar y canlynol:-

- Y sefyllfa ansicr o ran Brexit
- Y gwaith a wneir gan Grant Thornton ar ran CLILC, gan edrych yn benodol ar fasnach. Amlygodd nifer o risgiau sy'n benodol i Sir y Fflint gan fod ein heconomi yn seiliedig ar fasnach.
- Nid oedd mwyafrif pencadlys cwmnïau wedi'u lleoli yn Sir y Fflint, a oedd yn rhoi Sir y Fflint mewn perygl gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud mewn man arall
- Roedd gan Sir y Fflint lefel uchel o weithwyr sgiliau isel a oedd mewn perygl o golli swyddi
- Sefyllfa Covid 19 - rydym yn dal yn ansicr gyda'r cynllun Ffyrlo yn dal i fodoli. Gallai guddio colledion swyddi posibl yn y dyfodol yn enwedig i bobl ifanc.

Cyfeiriodd y Rheolwr Menter ac Adfywio aelodau at y diagram ar dudalen 36 a baratowyd gan Grant Thornton. Amlygodd y risgiau o ran sut roedd gweithgynhyrchu a chyfanwerthu yn dibynnu ar ganlyniadau Brexit a Covid. Adroddodd ar nifer y grwpiau a sefydlwyd gyda LlC a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r gwaith a wnaed i gynllunio'r broses adfer ar gyfer anghenion uniongyrchol ac i ail-lunio'r dyfodol.  Cafodd y blaenoriaethau eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor.

Teimlai'r Cynghorydd Patrick Heesom fod hwn yn adroddiad pwysig iawn a'i fod yn ymwneud â diffyg cyfranogiad aelodau yn y gweithdrefnau.  Cyfeiriodd at y strwythur ar dudalen 37 nad oedd ganddo fawr o le i gyfraniadau gan aelodau, yn enwedig gyda goblygiadau Brexit.  Yna cyfeiriodd at gyfraniadau Adroddiad Hatch ac Adroddiad Grant Thornton a theimlai fod angen crynodeb o'r adroddiadau hynny ar aelodau er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth.  Mewn ymateb, roedd y Rheolwr Menter ac Adfywio yn gobeithio y byddai'r wybodaeth yn darparu crynodeb o'r adroddiad hwnnw ac yn cadarnhau y cânt eu dosbarthu i aelodau pan fyddent ar gael. Byddai'n myfyrio ar y sylwadau ynghylch cynnwys aelodau ac roedd yn gobeithio y byddai'r cyfarfod yn darparu rhywfaint o gyfranogiad aelodau i alluogi trafodaeth a dwyn swyddogion i gyfrif. Roedd yn gobeithio y byddai hynny'n rhoi rhywfaint o sicrwydd ond yn hapus i dderbyn unrhyw sylwadau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Shotton at y materion ym mhorthladd Caergybi oherwydd faint o waith papur yr oedd yn rhaid i gwmnïau ei gwblhau. Arweiniodd hyn at ddargyfeirio danfoniadau i borthladdoedd Ewropeaidd ac yn dod i'r DU drwy Eire ac yna i Ogledd Iwerddon.  Gofynnodd sut oedd hyn yn effeithio ar gwmnïau a chludwyr yn Sir y Fflint.  Gofynnodd hefyd, gyda'r Cyllid Ewropeaidd yn dod i ben a chyllid â blaenoriaeth yn digwydd, lle oedd y penderfyniadau'n cael eu gwneud, yn LlC neu Fwrdd Twf Gogledd-ddwyrain Cymru.    Mewn ymateb, cyfeiriodd y Rheolwr Menter ac Adfywio at y sefyllfa newidiol o ran cludo nwyddau a chludiant a'i bod yn bwysig gwahanu'r aflonyddwch byrdymor â'r sifftiau tymor hwy yn ein heconomi.  Roedd y sefyllfa'n ansicr ar hyn o bryd, gyda Chaergybi mewn sefyllfa ddiamddiffyn gyda'r llwybr amgen yn llwybr môr drud, hir.   O ran cyllid yr UE, byddai hyn yn lleihau yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf. Fodd bynnag roedd Sir y Fflint yn dderbynnydd bach o arian yr UE a oedd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr, ac roedd angen gweithio i ddeall effeithiau colli'r cyllid hwnnw.  Cyfeiriodd at gyllideb y DU a gyhoeddodd rywfaint o arian ar

gyfer rhanbarthau. Nid oedd yr amnewidiad yn gwbl weithredol eto a rhoddodd wybodaeth am y cyllid tymor byrrach a oedd ar gael gyda'r ceisiadau am gyllid wedi’u prosesu yn San Steffan, nid Caerdydd.  Darparodd y Rheolwr Menter ac Adfywio wybodaeth am y cydweithredu llwyddiannus a chryf sydd ar waith ledled Gogledd Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Owen Thomas fod gan Sir y Fflint weithlu medrus iawn a chwmnïau medrus tu hwnt, gyda'r byd i gyd ar gael i wneud busnes â nhw, ond roedd yn teimlo y dylid annog prentisiaethau ar draws pob crefft.   Cytunodd y Rheolwr Menter ac Adfywio â sylwadau’r Cynghorydd Thomas ar sgiliau, gan ddweud bod cyfran o gwmnïau â gweithlu medrus iawn a dyna’r rheswm bod cymaint o ddiwydiannau gweithgynhyrchu ac uwch-dechnoleg yn y sir.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell at Ymgynghoriad Canol y Dref yn yr Wyddgrug yn ddiweddar a chanmolodd y gefnogaeth a ddarparwyd gan y Rheolwr Menter ac Adfywio a'i dîm i'r cynghorwyr sir a thref ac aelodau o'r cyhoedd.

Adroddodd yr Aelod Cabinet ar gyllid blaenorol gan Cadwyn Clwyd a'r Cynllun Datblygu Gwledig, a gofynnodd faint yn hwy y byddai'r cyllid hwnnw ar gael ar gyfer Adfywio Canol y Dref.  Gofynnodd hefyd beth oedd y sefyllfa o ran Cronfa'r Ardoll Agregau ar gyfer Cymru a chadarnhaodd ei bod yn siarad â LlC am y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a oedd yn disodli'r cyllid hwn. Gan fod y chwareli a'r adeiladu yn dechrau eto, hoffai weld cymunedau'n derbyn peth o'r cyllid hwn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Menter ac Adfywio mai cyllid Cynllun Datblygu Gwledig Cymru oedd 50% Ewrop a 50% LlC ac y byddai'r rhaglenni hyn yn dod i ben yn raddol dros y 2 neu 3 blynedd nesaf, ynghyd â'r rhaglenni Ewropeaidd eraill.  Roedd y sefyllfa'n aneglur iawn ynghylch y dyfodol ar gyfer y rhaglenni gwledig hyn a hefyd nid oedd unrhyw fanylion ar gael ar hyn o bryd ynghylch yr hyn a ddisodli'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin na'r gwaith a gwmpesir gan Cadwyn Clwyd.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at Gronfa yr Ardoll Agregau ac eglurodd fod hwn wedi'i gyflwyno fel treth ar gloddio am agregau tua 15 mlynedd yn ôl, gyda chyfran yn cael ei defnyddio i alluogi cymunedau lleol wneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau lleol fel adeiladau cymunedol neu ardaloedd chwarae. Cadarnhaodd iddo ddod i ben yn Lloegr tua 7 neu 8 mlynedd yn ôl ond parhaodd yng Nghymru tan 2 flynedd yn ôl pan ddaeth cymorth LlC i ben.  Dywedodd fod y prosiectau seilwaith mwy fel Parc Adfer yn darparu cronfeydd datblygu cymunedol ac yn teimlo fel cyngor bod Sir y Fflint yn dda am gael mynediad at gyfleoedd p'un ai drwy Barc Adfer neu ffrydiau eraill, gyda Tom Woodall a'i dîm yn cyfeirio cymunedau at ffrydiau cyllido.    Gofynnodd Aelod y Cabinet a allai'r pwyllgor ysgrifennu at LlC i geisio cefnogaeth ar gyfer ailgyflwyno Cronfa yr Ardoll Agregau fel argymhelliad gan y pwyllgor.

Cytunodd yr Aelod Cabinet Datblygu Economaidd â sylwadau blaenorol a wnaed, gan ddweud bod yr economi mewn cyflwr o fflwcs.  Roedd yn falch nad oedd Airbus yn diswyddo’n orfodol ac y disgwylir gwybodaeth o hyd am Vauxhall. Cyfeiriodd at golli swyddi a oedd wedi bod yn is na'r hyn a ragwelwyd hyd yn hyn, ond roedd y cynllun ffyrlo yn cuddio'r effaith lawn o bosibl.  Cyfeiriodd at ba mor

ddiamddiffyn oedd y diwydiant cynhyrchu bwyd, yn benodol. Yna cyfeiriodd Aelod y Cabinet at y buddion y gellid eu cyflawni o Fargen Twf Gogledd Cymru a menter drawsffiniol Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, ac y gellid rhoi hwb i'r sectorau lletygarwch a thwristiaeth gan yr economi gwyliau gartref. O ran Cadwyn Clwyd, roedd pryderon ymhlith CLILC ynghylch pecynnau gwledig gan yr UE a oedd wedi bod yn hael yn y gorffennol. Nid oedd yn eglur pa gyllid a fyddai'n dod yn lle'r rhain gan San Steffan.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Patrick Heesom ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Joe Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Aelodau i nodi'r rhagamcanion rhagolygon economaidd posibl ac adolygu'r strwythurau adfer a sefydlwyd i lywio gweithredoedd yn y dyfodol.
(b) Aelodau i nodi'r rhaglenni gwaith cyfredol ac arfaethedig a sefydlwyd i gefnogi adferiad economaidd yn Sir y Fflint.
(c) Anfon llythyr ar ran y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru i ofyn am adfer Cronfa yr Ardoll Agregau

50. **STRATEGAETH ADFERIAD (PORTFFOLIO GWASANAETHAU STRYD A CHLUDIANT)**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) a rhoddodd ddiweddariad rheolaidd ar strategaeth adfer y portffolio a blaenoriaethau adfer yn dilyn y pandemig. Tynnodd sylw at dair o'r naw blaenoriaeth a rhoddodd wybodaeth am oriau gwaith y Gweithlu, cyfleusterau Trin Gwastraff a'r Rhwydwaith Priffyrdd.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Chris Dolphin a Joe Johnson.

**PENDERFYNWYD:**
Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn cefnogi'r cynnydd a wnaed i gefnogi'r Strategaeth Adferiad gan y portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant.

51. **STRATEGAETH ADFERIAD A'R COFRESTR RISG (PORTFFOLIO CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) a rhoddodd ddiweddariad rheolaidd ar strategaeth adfer y portffolio a blaenoriaethau adfer yn dilyn y pandemig. Amlygwyd y prif amcanion yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys meysydd parcio mewn safleoedd cyrchfan fel Parc Gwepra a Thalacre a'r goblygiadau o ran ailagor busnesau nad ydynt yn hanfodol, adeiladau trwyddedig a lletygarwch. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at yr arolwg Clefyd Coed Ynn gan adrodd ar y bwriad i dynnu coed ar yr A541 Wyddgrug – Dinbych. Byddai'n rhaid cau'r ffordd am ddiwrnod wrth ddefnyddio'r offer sy'n tynnu coed i lawr ar unwaith, gan leihau aflonyddwch i'r cymunedau lleol. Byddai adroddiad yn cael ei ddychwelyd i'r pwyllgor ar hyn. Yna tynnodd y Prif Swyddog sylw a darparu gwybodaeth am y risgiau i'r pwyllgor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Heesom at eitem 1.01 yn yr adroddiad a gofynnodd beth oedd ystyr trefniadau trosglwyddo. Yna cyfeiriodd y

Cynghorydd Heesom at y Grŵp Strategaeth Cynllunio a oedd, yn ei farn o, yn becyn cymorth pwysig iawn, yn seiliedig ar aelodau etholedig. Awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol adolygu'r strwythur hwnnw yn yr hinsawdd sydd ohoni. Yna cyfeiriodd at y Cynllun Datblygu Lleol a gofynnodd am ddiweddariad ar ble roeddem ni o ran hyn ac a allai bellach fynd yn ei flaen. Adroddodd y Cynghorydd Heesom ar yr anawsterau hirsefydlog i gysylltu â staff cynllunio, gydag unrhyw newyddion ar welliannau i'w croesawu'n fawr.

Mewn ymateb, cyfeiriodd y Prif Swyddog at dudalen 69 a gwrandawiad y Cynllun Datblygu Lleol, a oedd i fod i gychwyn ym mis Chwefror ond a oedd wedi ei ohirio ddwy waith, ond a oedd bellach i fod i ddechrau ar 13 Ebrill. Yr unig reswm am yr oedi oedd am nad oedd yr Arolygiaeth ar gael. Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog at gylch gorchwyl y Grŵp Strategaeth Cynllunio a adolygwyd yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol diwethaf. Dwy swyddogaeth y grŵp hwn oedd arwain gwaith cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol, a delio ag unrhyw faterion mewn perthynas â'r broses gynllunio statudol. Nid oedd y Cylch Gorchwyl wedi newid dros y pedair blynedd diwethaf. Yr hyn a oedd wedi newid oedd bod y ffocws yn bennaf ar ddelio â'r Cynllun Datblygu Lleol ac roedd yn teimlo ei fod wedi treulio ei amser yn briodol ers i'r cylch gorchwyl gael ei ddiwygio. O ran cyfathrebu â'r portffolio Cynllunio, adroddodd ar e-bost a oedd yn cael ei anfon at yr holl Aelodau yr wythnos hon a fyddai, gobeithio, yn lleddfu pryderon aelodau. Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog at y trefniadau trosglwyddo ar gyfer adferiad a nododd fod y Cyngor mewn cyfnod ymateb 12 mis yn ôl pan oedd cyfnod clo Covid yn weithredol. Cafodd meysydd critigol eu blaenoriaethu gyda'r swyddogion hynny sy'n hanfodol i ddarparu gwasanaeth. Adroddodd ar swyddogion o fewn rolau diogelu Cymuned a Busnes a symudwyd i gefnogi ymateb Covid. Fodd bynnag, eglurodd na ddaeth yr un gwaith arall i ben, yn hytrach roedd yn achos o newid y ffordd yr ymgymerwyd â'r gwaith mewn ymateb i Covid 19. Yna, cyfeiriodd y Prif Swyddog at y pwynt ynghylch anawsterau wrth recriwtio staff mewn perthynas â Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ac na fu unrhyw anawsterau wrth recriwtio unrhyw aelodau eraill o staff.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Joe Johnson a'u heilio gan y Cynghorydd Owen Thomas, a'r Cynghorydd Heesom yn ymatal.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn goruchwylio'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â chynllunio adferiad ar gyfer y portffolio Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi.
(b) Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys y gofrestr risg portffolio wedi'i diweddaru a'r camau lliniaru.

## 52. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.31pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**